**Elin Jones AS, Llywydd**
Senedd Cymru
**Elin Jones MS, Presiding Officer**
Welsh Parliament

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ein cyf: EJ/AJ

8 Rhagfyr 2020

Annwyl Helen Mary,

Rwyf wedi dilyn â chryn ddiddordeb gwaith y Pwyllgor ar effaith COVID ar newyddiaduriaeth.

Fe'm trawyd gan faint y problemau a ddaeth i'r amlwg yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor, a'i waith blaenorol yn y maes hwn. Un o flaenoriaethau strategol y Comisiwn yw ymgysylltu â holl bobl Cymru ac rwyf wedi meddwl cryn dipyn am ffyrdd ymarferol i'r Senedd wneud gwahaniaeth.

<u>Y sefyllfa gyfreithiol</u>

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) yn darparu ar gyfer caniatáu i Gomisiwn y Senedd wneud unrhyw beth sy'n ymddangos yn angenrheidiol neu'n briodol at ddibenion, neu'n gysylltiedig â, chyflawni ei swyddogaethau.  Mae Deddf 2006 hefyd yn dweud bod yn rhaid i'r Comisiwn ddarparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Senedd.

Mae cyfryngau cryf ac annibynnol yn hanfodol i unrhyw ddemocratiaeth. Er gwaethaf ymdrechion newyddiadurwyr sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd, rydym wedi dioddef ers tro byd oherwydd diffyg lluosogrwydd y cyfryngau, ac mae'r sefyllfa'n gwaethygu oherwydd y problemau economaidd presennol.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
llywydd@senedd.cymru
0300 200 7403

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
llywydd@senedd.wales
0300 200 7403

Un o brif amcanion yr Aelodau a'r Comisiwn yw hyrwyddo gwaith y Senedd a dwyn y llywodraeth i gyfrif ar ran pobl Cymru. Rwy'n credu ei bod yn ddilys dadlau bod cefnogi newyddiaduriaeth yng Nghymru yn rhan o'r amcan hwn.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion ymchwilio i'r opsiynau ymarferol a fyddai'n rhoi cyfle i Gomisiwn y Senedd gyflawni ei amcanion a helpu i gefnogi newyddiaduriaeth annibynnol yng Nghymru.

Byddai angen cymorth y Comisiynwyr ac Aelodau ar draws y Senedd, wrth gwrs, i roi unrhyw drefniadau tebyg ar waith.

Mae'n werth nodi bod y Comisiynwyr wedi cytuno i sefydlu cynllun peilot ar gyfer gwasanaeth gwifren newyddion hyd braich annibynnol ym mis Rhagfyr 2017, a hynny'n dilyn argymhellion y Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol, dan gadeiryddiaeth Leighton Andrews, y cyn Weinidog.

Yn y cyfamser, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am y gwaith y mae wedi'i wneud, ac y mae'n parhau i'w wneud, i dynnu sylw at y mater hwn sy'n bwysig i bob un ohonom.

Yn gywir,

Elin Jones

**Elin Jones AS**
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English